**Eitem ar yr agenda: 8**

## GWASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU |
| **DYDDIAD:** | 19 RHAGFYR 2005 |
| **ADRODDIAD GAN:** | TRYSORYDD |
| **MATER DAN SYLW:** | CYLLIDEB DDRAFFT 2006/2007 |

1. <u>CYFLWYNIAD</u>

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys y cynigion i'r Awdurdod mewn perthynas â'r gyllideb ddrafft ar gyfer 2006/2007, y rhagolygon ar gyfer 2007/2008 a 2008/2009, ac mae'r papurau sydd ynghlwm yn amlinellu'r:-

(i) gyllideb refeniw ddrafft (Atodiad A),
(ii) y cyfraniadau dros dro sy'n ofynnol gan yr Awdurdodau sy'n aelodau (Atodiad B),
(iii) rhestr o ddangosyddion darbodus fel sy'n ofynnol gan God Ymarfer CIPFA ar gyfer Rheoli'r Trysorlys (Atodiad C),
(iv) Strategaeth a Chynllun Blynyddol Rheoli'r Trysorlys 2006/2007 (Atodiad D) a'r
(v) rhaglen gyfalaf ddrafft (Atodiad E).

1.2 Ar gychwyn yr adroddiad, mae'n bwysig tynnu sylw Aelodau at nifer o bwyntiau allweddol sy'n gysylltiedig â'r gyllideb ddrafft ar gyfer 2006/2007.

(a) Pan roddwyd ystyriaeth i'r gyllideb ar gyfer 2005/2006, cytunodd Aelodau ar nifer o opsiynau i leihau'r cynnydd arfaethedig o 9.53% i 4.09%, lefel sy'n fwy fforddiadwy i'r Awdurdodau sy'n aelodau. Roedd yr opsiynau'n cynnwys defnyddio'r Darpariaethau gan yr Awdurdod a sicrhau arbedion trwy wella effeithlonrwydd, clustnodwyd yr arbedion trwy wella effeithlonrwydd o'r gyllideb tâl a gadwyd. Mae'r opsiynau y cytunwyd arnynt ar gyfer cyllideb 2005/2006 wedi lleihau'r Ddarpariaeth gan yr Awdurdod ac wedi dileu elfen wrth gefn y gyllideb a gadwyd fu yn y gorffennol yn brif ffynhonnell unrhyw danwariant. Mae hyn yn golygu y byddai'r man cychwyn ar gyfer cyllideb 2006/2007 eisoes yn fyr o £781,202 oedd wedi'i gyllido gan Ddarpariaethau, gyda'r tebygolrwydd na fyddent yn cael eu hadnewyddu yn sgil tanwariant mawr yn 2005/2006.

(b) Ni wnaed unrhyw ddarpariaeth yn y gyllideb ddrafft ar gyfer costau rheng i rôl (*rank to role*) oherwydd disgwylir y dylid cwrdd â hyn, fel rhan o'r rhaglen foderneiddio, drwy effeithlonrwydd neu adleoli adnoddau'n deillio o'r IRMP.

(c) Dylai Aelodau fod yn ymwybodol o'r Setliad Grant Cynnal Refeniw dros dro ar gyfer Awdurdodau Gogledd Cymru wrth ystyried cynnydd i Gyllideb yr Awdurdod Tân. Y cynnydd cyfartalog dros dro yn y Grant Cynnal Refeniw ar gyfer Awdurdodau Gogledd Cymru ar gyfer 2006/2007 yw 4.82%; cyfartaledd Cymru gyfan yw 5.1%. Mae'r swm 'net' yn arbediad o 1% a ragwelir yn y Setliad. Ond mae'r setliad yn

cynnwys arian newydd sylweddol ar gyfer meysydd penodol fel Gofal Cymdeithasol a phan fydd hyn wedi'i dynnu ohono y cynnydd sylfaenol yw oddeutu 3 i 3.5%.

2. CYLLIDEB REFENIW

2.1. Cyfrifwyd bod y gyllideb ddrafft gychwynnol ar gyfer 2006/2007 yn £29.812m, sydd 6.65% yn uwch na'r gyllideb a gymeradwywyd ar gyfer 2005/2006. Mae'n cymryd i ystyriaeth effaith y dyfarniadau tân y cytunwyd arnynt yn genedlaethol a darpariaeth o 3% ar gyfer dyfarniad tâl dynion tân o Orffennaf 2006. Mae ffactorau eraill, fel chwyddiant cyffredinol, hefyd wedi'u cynnwys, yn ogystal ag ystyriaethau penodol fel:

- y cynnydd mewn taliadau pensiwn i gynnwys cost nifer uwch o bensiynwyr;
- cost tanwydd yn cynyddu ar gyfradd sy'n llawer uwch na chwyddiant;
- costau am un tro'n unig am offer TG ar gyfer cyllideb 2006/2007 yn sgil adolygu'r systemau presennol;
- cyllideb ychwanegol ar gyfer yr Adain Cyfathrebu Gorfforaethol;
- mae disgwyl i'r adolygiad o'r contract Iechyd Galwedigaethol, sydd allan ar dendr, arwain at gynnydd sylweddol mewn costau yn y maes hwn.

Mae Atodiad A yn cymharu'r gyllideb gychwynnol ar gyfer 2006/2007 i'r gwariant gwirioneddol ar gyfer 2004/2005, y cyllidebau gwreiddiol a'r ffigurau terfynol ar gyfer 2005/2006 a'r rhagolygon ar gyfer 2007/2008 a 2008/2009.

2.2 Mae'r gyllideb wreiddiol oddeutu 1.8% yn uwch na'r Setliad Grant Cynnal Refeniw dros dro ar gyfer yr awdurdodau sy'n aelodau ac mae angen ystyried opsiynau er mwyn lliniaru'r cynnydd.

2.3 Mae'r tabl isod yn crynhoi'r opsiynau i Aelodau eu hystyried. Mae sylwadau ar bob llinell o'r tabl a'r risgiau posibl yn dilyn:

**Cyllideb 2005/2006**

**£27,951,864**

| | **Cyllideb 2006/2007 £** | **Newid o 2005/2006 +/- %** |
|---|---|---|
| Cyllideb Sylfaenol Arfaethedig 2006/2007 | 29,811,855 | +6.65 |
| Canlyniadau Refeniw o safbwynt Gwariant Cyfalaf | -50,000 | -0.18 |
| Dim Trosglwyddo i'r Ddarpariaeth Bensiwn o'r tanwariant ar Gymudiadau yn 2005/2006 | -100,000 | -0.36 |
| Darpariaeth Bensiwn | -162,200 | -0.58 |
| Tanwariant 2005/2006 | -150,000 | -0.53 |

| | | |
|---|---|---|
| Cyllideb Sylfaenol Ddiwygiedig<br>2006/2007 | 29,349,655 | +5.00 |

2.4 Paratowyd y tabl ar sail arbedion fydd yn digwydd fwy nac un tro ac arbedion am un tro'n unig.

(a) Mae'n bosibl lleihau effaith cyfalaf ar refeniw os defnyddir derbyniadau cyfalaf i ariannu gwariant cyfalaf yn 2005/2006. Ar hyn o bryd mae derbyniadau cyfalaf yn 2005/2006 y gellid eu defnyddio i sicrhau arbedion yn y dyfodol. Yn flaenorol defnyddid derbyniadau cyfalaf i ychwanegu at BCA (Gymeradwyaeth Credyd Sylfaenol), ond, gyda'r drefn newydd Benthyca Darbodus mae mwy o hyblygrwydd a llai o angen i gael derbyniadau cyfalaf. Ychydig o risg sydd ynghlwm â'r opsiwn hwn o ran refeniw a'r unig anfantais yw colli cyfle i ddefnyddio derbyniadau cyfalaf i ychwanegu at wariant cyfalaf yn y dyfodol.

(b) Cyflwynwyd adroddiad i'r Awdurdod Tân ar 19 Medi 2005 yn adolygu'r Ddarpariaeth Bensiwn bresennol ac yn amlinellu'r sefyllfa bresennol o ran newidiadau i gynllun pensiwn dynion tân. Ers yr adroddiad hwnnw, ni fu datblygiadau pellach o ran y broses ymgynghori rhwng Llywodraeth y Cynulliad a'r Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru. Ond mae'n ymddangos ar hyn o bryd y bydd Llywodraeth y Cynulliad yn dilyn yr un cynllun a gyflwynir yn Lloegr sy'n cynnwys cymryd y cyfrifoldeb am ariannu costau'r 'ymddeoliadau cyffredinol', gyda'r Awdurdod Tân yn gyfrifol am ddyfarniadau ar sail salwch ac anaf. Gallai hyn gael effaith ar Ddarpariaeth Bensiwn yr Awdurdod, sydd ar hyn o bryd yn £1.955m, gan na fydd o bosibl angen darpariaeth mor fawr.

Mae dau opsiwn ar gael i Aelodau. Yn gyntaf, gohirio'r cam o drosglwyddo'r arbedion ar gymudiadau i'r Ddarpariaeth Bensiwn yn 2005/2006 ac yn ail, defnyddio peth o'r ddarpariaeth i ariannu'r gyllideb ar gyfer 2006/2007. Ystyrir bod y risg o weithredu'r opsiwn hwn yn isel gan fod y balans ar y ddarpariaeth yn iach a bydd yn ostyngiad o lai na 10%. Byddai'n bosibl adolygu'r sefyllfa unwaith byddai'r broses ymgynghori wedi cychwyn.

(c) Mae'r llinell nesaf yn y tabl yn cyfeirio ar orwariant sy'n deillio o 2005/2006. Ar hyn o bryd £205k yw'r swm a amcangyfrifir a'r risg yw cydbwyso lefelau potensial gweithgaredd gweithredol dros y gaeaf yn erbyn yr hyn a ellid ei roi tuag at gyllideb 2006/2007, gallai £150k fod yn rhesymol ar hyn o bryd gan fod darpariaeth bosibl yn bodoli yn y Ddarpariaeth Bensiwn.

Prif faes tanwariant yw'r gyllideb tâl a gadwyd ac mae wedi deillio o lefelau is na'r cyffredin o weithgaredd gweithredol. Meysydd eraill sydd wedi cyfrannu at y tanwariant yw cynnydd mewn incwm, yn arbennig y llog ar falansau a hynny yn sgil y lefel uchel o ddarpariaethau gan yr Awdurdod.

2.5 Oherwydd y pwyntiau a danlinellir uchod mae cynnydd o 5% yn y gyllideb ddrafft. Ond nid ydynt yn rhestru pob posibilrwydd ac efallai yr hoffai Aelodau gymryd camau pellach i leihau'r cynnydd arfaethedig ar gyfer 2006/2007. Fel canllaw, bydd swm o £280k yn golygu arbediad o 1% .

2.6 Fel y dywedwyd yn flaenorol wrth Aelodau, mae Deddf y Gwasanaethau Tan ac Achub 2004 yn cynnwys darpariaeth sy'n galluogi Awdurdodau Tân godi tâl am rai gwasanaethau. Nid yw'r Cynulliad hyd yma wedi llunio Gorchymyn ar gyfer Cymru ond mae wedi cyhoeddi papur drafft ar y ddeddfwriaeth ddrafft a gwnaed cais i dderbyn unrhyw ymateb iddi erbyn 25 Tachwedd 2005. Mae'n bosibl y bydd y ddeddfwriaeth yn dod i rym erbyn Ebrill 2006 a byddai'n fodd i'r Awdurdod godi tâl am rai gwasanaethau yn ôl yr hyn a amlinellir yn y Gorchymyn. Aelodau'r Awdurdod Tân fydd yn penderfynu ar lefel y taliadau a gallai hyn ddarparu ffynhonnell o incwm i liniaru cynnydd yn y gyllideb.

2.7 Fel y crybwyllwyd yn flaenorol, ni wnaed unrhyw ddarpariaeth yn y gyllideb ar gyfer y costau rheng i rôl a allai fod oddeutu £225k ynghyd â swm ychwanegol, sydd heb ei bennu eto, ar gyfer ôl-dâl i Dachwedd 2003. Nid yw cyllideb eleni'n cynnwys yn benodol yr 'arbediad trwy wella effeithlonrwydd 1%' y disgwylir yn gyffredinol gan Lywodraeth y Cynulliad ar draws yr holl wasanaethau a effeithir gan y Grant Cynnal Refeniw ac a gynhwysir yn y Setliad Grant Cynnal Refeniw ar gyfer 2006/2007 a, yn hynny o beth, ystyrir ei fod yn briodol y dylid cwrdd ag unrhyw gostau ychwanegol gan yr Awdurdod o'r arbedion trwy wella effeithlonrwydd fel rhan o'r rhaglen foderneiddio. Argymhellir pan fydd y Panel Gweithredol yn gwybod cost lawn rheng i rôl ei fod yn cael y dasg o bennu'r arbedion sydd eu hangen i gynnwys y gost.

## 3. GWYBODAETH YCHWANEGOL

3.1 Mae Atodiad B yn amlinellu'r cyfraniadau dros dro ar gyfer 2006/2007, tra bod Atodiad C yn amlinellu'r dangosyddion darbodus angenrheidiol o God Ymarfer CIPFA ar Reoli'r Trysorlys. Mae Strategaeth a Chynllun Blynyddol Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2006/2007 yn Atodiad D.

## 4. RHAGLEN GYFALAF

4.1 Mae'r rhaglen gyfalaf drafft ar gyfer 2006/2007 wedi'i hamlinellu yn Atodiad E sy'n swm o £2.78m. Yn 2005/2006 yr amcangyfrif o'r ffigurau terfynol ar gyfer gwariant cyfalaf yw £2.76m. Bwriedir ariannu hyn drwy fenthyca.

4.2 Fel rhan o ailstrwythuro mewn rheoli, mae'r Awdurdod wedi gwerthu peth o'r eiddo yn ei bortffolio ac ar hyn o bryd mae yn y broses o werthu eiddo York Road. Y Derbyniadau Cyfalaf a ddisgwylir ddiwedd 2005/2006 yw £479k, mae'r rhain yn cynnwys gwerthu'r asedau o flynyddoedd blaenorol a'r arian a geir o werthu York Road.

4.3 Mae arweiniad CIPFA ar Wariant Cyfalaf yn argymell bod yr Awdurdod yn gosod lefel lefel 'de-minimis' ar gyfer eitemau a brynir fel rhan o'r rhaglen gyfalaf. Y lefel de-minimis a argymellir ar gyfer gwariant cyfalaf gan yr Awdurdod Tân yw £100.

## 5. ARGYMHELLIAD

5.1. Argymhellir bod:

(i) Aelodau'n penderfynu ar y gyllideb ddrafft ar gyfer 2006/2007 yn unol â'r cyngor a amlinellir yn 1.2(c) a'r tabl ym mharagraff 2.3.

(ii) Hysbysu'r Awdurdodau sy'n aelodau o'r cyfraniadau dros dro sy'n ofynnol ar gyfer 2006/2007.

(iii) Dirprwyo pŵer i'r Panel Gweithredol i ystyried a chymeradwyo sut y gellir pennu arbedion i gynnwys costau rheng i rôl, a'u gweithredu ar gyfer 2006/2007.

(iv) Cymeradwyo'r Dangosyddion Darbodus a amlinellir yn Atodiad C.

(v) Cymeradwyo'r Strategaeth a Chynllun Blynyddol Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2006/2007 a amlinellir yn Atodiad D.

(vi) Cymeradwyo'r rhaglen gyfalaf ddrafft ar gyfer 2006/2007 a'r dulliau cysylltiedig o ariannu a gosod y lefel 'de-minimis' ar gyfer gwariant cyfalaf ar £100.

(vii) Os bydd unrhyw newidiadau'n digwydd cyn 31 Ionawr 2006, bod y pwerau i ddiwygio lefel y gyllideb yn cael ei ddirprwyo i'r Panel Gweithredol, neu os bydd unrhyw gyhoeddiadau neu arbedion yn dod i ben ar ôl y dyddiad hwn ond cyn 15 Chwefror 2006, bod y pŵer yn cael ei ddirprwyo i'r Trysorlys mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd, y Prif Swyddog Tân a'r Clerc.

K W FINCH
**Trysorydd**

30 Tachwedd 2005

ATODIAD C

**DANGOSYDDION DARBODUS AR GYFER AWDURDOD TÂN GOGLEDD CYMRU**

1. Y costau cyfalaf gwirioneddol yn 2004-2005 a'r amcangyfrifon o wariant cyfalaf ar gyfer y flwyddyn bresennol a'r blynyddoedd i ddod a argymhellir i'w cymeradwyo yw:

| **2004/05** | **2005/06** | **2006/07** | **2007/08** | **2008/09** |
|---|---|---|---|---|
| **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **Gwirioneddol** | **Terfynol** | **Amcangyfrif** | **Amcangyfrif** | **Amcangyfrif** |
| 3,941 | 2,756 | 2,780 | 3,599 | 3,268 |

2. Amcangyfrifon o ran cymhareb costau cyllido i wariant net ar gyfer y flwyddyn bresennol a'r blynyddoedd i ddod, a'r ffigurau gwirioneddol ar gyfer 2004-2005 yw:

| **2004/05** | **2005/06** | **2006/07** | **2007/08** | **2008/09** |
|---|---|---|---|---|
| **Gwirioneddol** | **Terfynol** | **Amcangyfrif** | **Amcangyfrif** | **Amcangyfrif** |
| 2.31% | 2.73% | 3.48% | 4.48% | 5.47% |

Mae'r amcangyfrifon o gostau cyllido yn cynnwys ymrwymiadau presennol a'r cynigion yn yr adroddiad hwn o'r gyllideb.

3. Yr amcangyfrifon o'r cyllid cyfalaf diwedd flwyddyn ar gyfer yr awdurdod ar gyfer y flwyddyn bresennol a'r blynyddoedd i ddod â'r gofynion cyllido cyfalaf ar 31 Mawrth 2005 yw:

| **31/03/05** | **31/03/06** | **31/03/07** | **31/03/08** | **31/03/09** |
|---|---|---|---|---|
| **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **Gwirioneddol** | **Terfynol** | **Amcangyfrif** | **Amcangyfrif** | **Amcangyfrif** |
| 6,948 | 9,307 | 11,475 | 14,257 | 16,450 |

4. Mae'r gofynion cyllido cyfalaf yn mesur angen sylfaenol yr awdurdod i fenthyca ar gyfer diben cyfalaf. Yn unol ag arfer proffesiynol gorau, nid yw Awdurdod Tân Gogledd Cymru'n cysylltu benthyca gydag eitemau arbennig na mathau o wariant. Ar unrhyw gyfnod mae gan Awdurdod Tân Gogledd Cymru, sawl llif arian, rhai positif a negyddol, ac mae'n rheoli ei safle ariannol yn nhermau benthyciadau a buddsoddiadau yn unol â'i strategaeth a'r arferion rheoli trysorlys a gymeradwywyd. O ran rheoli arian o ddydd i ddydd, ni ellir gwahaniaethu rhwng arian refeniw ac arian cyfalaf. Mae benthyca allanol yn digwydd o ganlyniad i holl ddeliadau ariannol yr awdurdod ac nid yn unig y rhai sy'n codi o wariant cyfalaf. I'r gwrthwyneb, mae'r gofynion cyllido cyfalaf yn adlewyrchu angen sylfaenol yr awdurdod i fenthyca at ddiben cyfalaf.

5. Mae Côd Darbodus CIPFA ar gyfer Cyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol yn cynnwys y canlynol fel prif ddangosydd ar gyfer bod yn ddarbodus:

"Er mwyn sicrhau mai at ddiben cyfalaf yn unig y bydd y benthyca gwirioneddol yn y tymor canolig, dylai'r awdurdod lleol sicrhau na fydd y benthyca allanol, ac eithrio yn y tymor byr, yn fwy na chyfanswm y gofynion cyllido cyfalaf yn y flwyddyn flaenorol yn cynnwys yr amcangyfrifon o unrhyw ofynion cyllido cyfalaf ychwanegol ar gyfer y flwyddyn bresennol a'r ddwy flynedd ariannol yn dilyn."

Dywed y Trysorydd na chafodd yr awdurdod unrhyw anhawster i gwrdd â'r gofynion hyn yn 2004-2005, ac ni ragwelir unrhyw anawsterau ar gyfer y flwyddyn bresennol na'r blynyddoedd i ddod. Mae'r farn hon yn cymryd i ystyriaeth ymrwymiadau presennol, cynlluniau presennol a'r cynigion yn yr adroddiad hwn o'r gyllideb.

6. O ran ei ddyled allanol, argymhellir bod yr Awdurdod Tân yn cymeradwyo dilyn y terfynau awdurdodedig canlynol ar gyfer cyfanswm gros buddsoddiadau allanol ar gyfer y tair blynedd ariannol nesaf, a'u bod yn cytuno ar y terfyn y cytunwyd arno'n flaenorol ar gyfer y flwyddyn

bresennol gan nad oes angen newid hyn. Mae'r terfynau hyn yn adnabod benthyca ar wahân i rwymedigaethau tymor hir fel lesoedd ariannol. Gofynnir i'r Awdurdod Tân gymeradwyo'r terfynau hyn ac i ddirprwyo awdurdod i'r Trysorydd, o fewn y cyfanswm terfynau ar gyfer unrhyw un flwyddyn, i symud rhwng y terfynau unigol y cytunwyd arnynt ar gyfer benthyca a rhwymedigaethau tymor hir eraill , yn unol â gwerthuso opsiynau a gwerth gorau am arian ar gyfer yr awdurdod. Bydd unrhyw newidiadau o'r fath yn cael eu hadrodd i'r Awdurdod Tân yn ei gyfarfod nesaf yn dilyn y newid.

| | **Terfyn Awdurdodedig ar gyfer Dyled Allanol** | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **2005/06** | **2006/07** | **2007/08** | **2008/09** |
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Benthyca | 13,074 | 16,190 | 18,990 | 21,195 |

7. Mae'r Trysorydd yn nodi bod y terfynau awdurdodedig hyn yn gyson gydag ymrwymiadau presennol yr awdurdod, ei gynlluniau presennol a'r cynigion yn yr adroddiad hwn o'r gyllideb ar gyfer gwariant a chyllido cyfalaf, a gyda'i ddatganiad polisi a'i ymarferion rheoli'r trysorlys a gymeradwywyd. Mae'r Trysorydd yn cadarnhau eu bod yn seiliedig ar yr amcangyfrif o'r hyn sy'n debygol ac yn ddarbodus ond nid y senario waethaf, gyda sgôp yn uwch na hyn ar gyfer rheoli gweithredol, er enghraifft symudiadau arian anghyffredin. Mae strategaethau dadansoddi risg a rheoli risg wedi'u hystyried; yn ogystal â chynlluniau ar gyfer gwariant cyfalaf, amcangyfrifon o'r gofynion o ran cyllido cyfalaf ac amcangyfrifon o ofynion llif arian ar gyfer yr holl ddibenion.

8. Hefyd gofynnir i'r Awdurdod Tân gymeradwyo'r ffin weithredol ganlynol ar gyfer dyled allanol ar gyfer yr un cyfnod. Mae'r ffin weithredol arfaethedig ar gyfer dyled allanol yn seiliedig ar yr un amcangyfrifon â'r terfynau awdurdodedig ond mae'n adlewyrchu'n uniongyrchol ar amcangyfrif y Trysorydd o'r hyn sy'n debygol ac yn ddarbodus ond nid y senario waethaf, gyda sgôp yn uwch na hyn wedi'i gynnwys o fewn y terfyn awdurdodedig i ganiatau am symudiadau arian anghyffredin, ac mae'n cyfateb i'r uchafswm o ran dyled allanol a ragwelir gan yr amcangyfrif hwn. Mae'r ffin weithredol yn cynrychioli canllaw rheoli allweddol ar gyfer monitro yn ystod y flwyddyn gan y Trysorydd. O fewn y ffin weithredol, mae ffigurau ar gyfer benthyca a rhwymedigaethau tymor hir eraill, mewn dull tebyg i'r terfyn awdurdodedig. Bydd unrhyw newidiadau o'r fath yn cael eu hadrodd i'r Awdurdod Tân yn ei gyfarfod nesaf yn dilyn y newid

| | **Ffin Weithredol ar gyfer Dyled Allanol** | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **2005/06** | **2006/07** | **2007/08** | **2008/09** |
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Benthyca | 11,074 | 14,190 | 16,990 | 19,195 |

9. Dyled allanol wirioneddol yr Awdurdod Tân ar 31 Mawrth 2005 oedd £7,113,428. Dylid nodi nad yw'n bosibl i'r ddyled allanol wirioneddol gael ei chymharu'n uniongyrchol i'r terfyn awdurdodedig a'r ffin weithredol, gan fod y ddyled allanol yn adlewyrchu'r sefyllfa ar un adeg.

10. Wrth benderfynu ar yr adroddiad hwn o'r gyllideb, gofynnir i'r Awdurdod Tân nodi mai'r terfyn awdurdodedig a bennir ar gyfer 2006-2007 (gweler paragraff 6 uchod) fydd y terfyn statudol a benderfynir dan adran 3(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003.

11. Yr amcangyfrif o effaith raddol o ran y penderfyniadau buddsoddi cyfalaf arfaethedig yn yr adroddiad hwn o'r gyllideb, uwchlaw penderfyniadau buddsoddi cyfalaf sydd wedi'u gwneud yn flaenorol gan yr Awdurdod Tân yw:

Cynnydd Gwirioneddol yn y cyfraniad gan gynghorau sy'n rhan o'r Awdurdod

| **2006/07** | **2007/08** | **2008/09** |
|---|---|---|
| £62,550 | £418,547 | £840,585 |

12. Wrth ystyried ei raglen ar gyfer buddsoddiadau cyfalaf, mae’n ofynnol i’r Awdurdod Tân o fewn ei Gôd Darbodus roi ystyriaeth i:

- a yw’n fforddiadwy, e.e. goblygiadau o ran y cyfraniadau gan gynghorau sy’n rhan o’r Awdurdod
- yr angen i fod yn ddarbodus ac yn gynaladwy, e.e. goblygiadau o ran benthyca allanol
- gwerth am arian, e.g. gwerthuso opsiwn
- rheoli asedau, e.e. cynllunio rheoli asedau
- amcanion gwasanaeth, e.e. cynllunio strategol ar gyfer yr awdurdod
- ymarferoldeb, e.e. a ellir cyflawni’r blaen gynllun.

13. Ffactor allweddol o ran bod yn fforddiadwy yw effaith raddol cyfraniad y cynghorau sy’n rhan o’r Awdurdod, a gallai’r Awdurdod Tân ystyried gwahanol opsiynau ar gyfer ei raglen fuddsoddi cyfalaf mewn perthynas â’u heffaith wahaniaethol ar y cyfraniadau.

ATODIAD D

**Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a Chynllun Blynyddol Awdurdod Tân Gogledd Cymru ar gyfer 2006-2007**

1. **Cyflwyniad**

Mabwysiadodd Awdurdod Tân Gogledd Cymru God Ymarfer CIPFA ar gyfer Rheoli'r Trysorlys ar 15 Rhagfyr 2003. Mae hyn yn ofynnol yn ôl y Cod Darbodus, sydd wedi'i gyflwyno fel rhan o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003. Mae'r cod yn darparu fframwaith cyffredinol ar gyfer aelodau a swyddogion er mwyn lleihau'r risgiau sydd ynghlwm â'r swyddogaeth trysorlys. Mae'n ofynnol yn ôl y cod bod adroddiad ar y strategaeth am y flwyddyn sydd i ddod yn cael i gyflwyno i'r Awdurdod Tân. Mae'r strategaeth a nodir isod yn cydymffurfio â'r cod ac fe'i cyflwynir fel sy'n ofynnol.

2. **Trosolwg**

Mae'r strategaeth yn manylu ar weithgareddau tebygol staff Rheoli'r Trysorlys yn 2006-2007. Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy sy'n gyfrifol am y swyddogaeth trysorlys ar ran Awdurdod Tân Gogledd Cymru fel rhan o gytundeb lefel gwasanaeth. Gan mai cymharol fach yw'r swm ariannol dros ben gan yr Awdurdod Tân, mae rhai buddsoddiadau wedi'u buddsoddi dan enw Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy er hwylustod a chedwir cofnodion manwl o'r buddsoddiadau gan staff Rheoli'r Trysorlys. Mae Conwy wedi penodi Butlers fel ymgynghorwyr ar hyn ac mae'r strategaeth yn seiliedig ar eu rhagolygon o'r farchnad fel yr amlinellir yn eu gwahanol gyhoeddiadau.

Bydd yr adroddiad o'r strategaeth yn cynnwys y meysydd canlynol:

(i) Sefyllfa bresennol
(ii) Terfynau benthyca yn 2006-2007
(iii) Cyfraddau llog yn 2006-2007
(iv) Strategaeth Fenthyca
(v) Strategaeth Fuddsoddi/partïon eraill

**(I) Sefyllfa Bresennol – 30 Tachwedd 2005**

| | | |
|---|---|---|
| Benthyca Cyfradd Sefydlog | PWLB | £7,513,428 |
| Benthyca Cyfradd Newidiol | PWLB | £0 |
| Arian/Buddsoddiadau | | £3,950,000 |

PWLB – Bwrdd Benthyca Gwaith Cyhoeddus, sydd erbyn hyn yn rhan o Swyddfa Rheoli Dyledion DU, sy'n darparu'r rhan fwyaf o gyllid cyfalaf awdurdodau lleol.
Arian/Buddsoddiadau – Mae arian sy'n weddill yn cael ei fuddsoddi gan Gonwy ar y farchnad arian am lai na blwyddyn.

(ii) **Terfynau o ran Benthyca 2004-2005**

Yn unol ag adran 3(1) o'r Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 a'r Cod Darbodus mae'n ofynnol bod yr awdurdod yn cymeradwyo ac yn cyhoeddi tri therfyn i'r gwahanol fathau o fenthyca a wneir. Y terfyn cyntaf yw'r Gofyniad Cyllido Cyfalaf, mae hyn yn fesur o'r ddyled tymor hir sydd ei hangen i gefnogi rhaglen gyfalaf yr awdurdod. Mae'r Terfyn Gweithredol yn fesur o'r cyfanswm posibl o ran dyled allanol gan ganiatáu am amrywiadau yn y llif arian. Mae'r Terfyn Awdurdodedig yn amcangyfrif o'r uchafswm y gallai'r awdurdod ei fenthyca yn seiliedig ar asesiad o ofynion gweithredol a risgiau allanol. Y terfynau ar gyfer 2004-2005 yw:

| | |
|---|---|
| Nawdd Cyfalaf Gofynnol | £7,081,000 |
| Terfyn Gweithredol | £9,635,000 |
| Terfyn Benthyca Awdurdodedig | £11,635,000 |

Gyda dyfodiad y Cod Darbodus gwelir newid o ran terfynau a osodir o dan ran 45 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989, gyda thri dangosydd darbodus newydd yn ymwneud â chyfradd llog. Argymhellir bod yr Awdurdod yn cymeradwyo'r terfynau canlynol:

| | **% Benthyca** |
|---|---|
| Cyfradd Llog Sefydlog | 55 - 100 |
| Cyfradd Llog Newidiol | 0 - 45 |

Argymhellir bod yr Awdurdod yn gosod terfyn uchaf ac isaf ar gyfer strwythur aeddfedu ei fenthyciadau cyfradd sefydlog:

| | **Terfyn Uchaf** | **Terfyn Isaf** |
|---|---|---|
| Dan 12 Mis | 30% | 0% |
| 12 Mis ac o fewn 24 Mis | 30% | 0% |
| 24 Mis ac o fewn 5 mlynedd | 50% | 0% |
| 5 mlynedd ac o fewn 10 mlynedd | 75% | 0% |
| 10 mlynedd a mwy | 90% | 20% |

(iii) **Cyfraddau Llog 2004-2005**

Mae'r rhagolygon o ran cyfradd llog ar gyfer 2004-2005 yn cael ei baratoi gan ymgynghorwyr (Butlers) rheoli'r trysorlys yr Awdurdod. Fe'i ceir isod:

| Blwyddyn | **Cyfradd Sylfaenol** | **5-mlynedd Gilt** | **20-mlynedd Gilt** |
|---|---|---|---|
| 2005/06 | 4.6 | 4.3 | 4.5 |
| 2006/07 | 4.3 | 4.4 | 4.6 |
| 2007/08 | 4.5 | 4.6 | 4.7 |
| 2008/09 | 4.8 | 4.8 | 4.7 |

Dyma'r rhagolygon o ran yr economi a chyfraddau llog yn ôl Butlers.

Cyhoeddodd y Pwyllgor Polisi Ariannol y toriadau hir disgwyliedig mewn cyfraddau sylfaenol yn dilyn cyfarfod fis Awst. Ond rhagwelir y bydd y gostyngiad yng nghylch cyfraddau llog y DU yn parhau ac yn isel gyda'r pwynt isaf yn eithaf agos at 4.25% (4.5% ar hyn o bryd). Mae twf GDP wedi bod yn sylweddol is na'r disgwyl yn sgil cyfuniad o'r lleihad mewn chwyddiant prisiau tai a chostau uwch o ran gwasanaethu dyledion sy'n tanseilio twf gwariant defnyddwyr. Disgwylir i weithgaredd barhau'n wan drwy gydol balans 2005 ond y bydd y sefyllfa'n gwella yn 2006.

Mae Banc Lloegr yn credu y bydd y cynnydd mewn gweithgaredd defnyddwyr, yn ogystal â thwf parhaus yng ngwariant y sector cyhoeddus a chynnydd mewn buddsoddi corfforaethol, yn hybu twf uwch yn y dyfodol. Mae hyn yn agored i ddadl ac mae'n amlwg ei bod yn anodd rhagweld cyfraddau llog yn yr hinsawdd bresennol, a bod angen bod yn ofalus o ran gweithgaredd y trysorlys.

(iv) **Strategaeth fenthyca**

Mae'r ansicrwydd cynyddol ynghylch cynnydd mewn cyfraddau llog yn cynyddu'r risgiau sydd yn gysylltiedig â gweithgaredd y trysorlys. O ganlyniad bydd yr Awdurdod yn bwyllog o ran strategaeth y trysorlys.

Disgwylir i gyfraddau llog sefydlog tymor hir godi'n gymedrol ac y mae disgwyl i gyfraddau sylfaenol ddisgyn ¼% i gychwyn cyn codi eto yn 2007/08. Dan y pwerau dirprwyo, bydd y Trysorydd yn benthyca ar sail y dull mwyaf priodol yn dibynnu ar y cyfraddau llog ar y pryd, a gan ystyried y risgiau a ddangosir yn y rhagolygon uchod. Mae'n debyg y rhoddir ystyriaeth i gyfraddau sefydlog tymor hir os bydd lefelau benthyca'n dal i aros yn gymharol isel.

(v) **Strategaeth Fuddsoddi/Partïon eraill**

Gwneir yr holl fuddsoddiadau fel adneuon arian i fanciau, cymdeithasau adeiladu ac awdurdodau lleol. Bydd y benthyciadau'n digwydd drwy un o nifer o gwmnïau brocer a ddefnyddir gan Gonwy a bydd eraill yn cael eu gwneud yn uniongyrchol rhwng y Cyngor a'r sefydliad. Ni fydd yr un buddsoddiad yn fwy na 364 diwrnod a byddant yn unol â rhagolygon diweddaraf y farchnad.

Cymeradwywyd rhestr o bartïon eraill gan yr Awdurdod Tân ar 20 Rhagfyr. Mae staff Rheoli'r Trysorlys yn monitro graddfeydd credyd y partïon eraill sydd wedi'u cymeradwyo a bydd parti yn cael ei dynnu oddi ar y rhestr os bydd dirywiad yn eu rating crdyd. Mae'r holl bartïon eraill ar y rhestr wedi'u cymeradwyo gan yr Awdurdod Tân:

**Terfyn £5m banciau**
Barclays, HSBC, Lloyds TSB, Cheltenham & Gloucester, National Westminister, Royal Bank of Scotland, Abbey, Halifax and the Bank of Scotland, Alliance & Leicester, Bank of Ireland, Allied Irish Bank, Northern Rock, Bradford & Bingley, Anglo Irish Bank, Woolwich, Hbos, Bank of Butterfield, Close Brothers, Co-operative Bank, Credit Suisse, First Boston International, Merrill Lynch International Bank, Standard Life, Bank of New York Europe, Citibank, HFC Bank, Clydesdale, Standard Chartered, N M Rothschild, Schroeders, Singer & Friedlander, Morgan Grenfell, Bristol & West, First Active, Irish Permanent, Depfa Bank, IIB Bank a'r Ulster Bank.

**Terfyn £5m Llywodraeth Ganol**
Swyddfa Rheoli Dyled

**Terfyn £2m Awdurdodau Lleol**
Pob un ac eithrio'r rhai sy'n amodol ar derfynau treth y cyngor a phreseptau dan Ran 1 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992

**Cymdeithasau Adeiladu (Asedau dros £400m) terfyn £2m**
Britannia, Chelsea, Cheshire, Derbyshire, Dunfermline, Leeds and Holbeck, Leek United, Nationwide, Norwich and Peterborough, Portman, Skipton, The Principality, Coventry a'r Yorkshire.